# Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

# Helpwch ein hysgol i fod yn Griw Mentrus!



**Bydd Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd y Criw Mentrus yn meithrin y genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid yng Nghymru. Ei nod yw datblygu sgiliau ac agweddau disgyblion ar gyfer menter mewn ffordd fywiog a difyr.**

**Mae arnon ni angen help gan arbenigwyr fel chi, entrepreneuriaid sydd wedi datblygu eu syniadau eu hunain ac sydd bellach yn rhedeg busnes llwyddiannus.**

## Sut allwch chi helpu

Gwyddom fod entrepreneuriaid yn bobl brysur, felly eich penderfyniad chi yw sut rhoddwch chi'ch amser. Gallech chi:

- Fod yn rhywun sy'n gallu ein helpu i feddwl am syniad busnes gwych.
- Ymweld a dweud wrthyn ni sut oedd pethau i chi wrth sefydlu'ch busnes.
- Bod yn fentor sy'n gallu ein cynghori ar beth i'w wneud i lwyddo.
- Ein cefnogi ni pan fyddwn ni'n ceisio datrys problem arbennig o anodd.
- Bod yn 'Ddraig' i ni o'r Ffau a bod yn onest gyda ni os credwch y gallai'n syniad ni fod yn well.
- Unrhyw ffordd arall y gwelwch chi'n addas!



## Pam dylech chi helpu

- Bydd yn helpu'ch busnes chi ac yn dangos bod ots gennych am eich cymuned.
- Gallai eich helpu i feddwl am syniadau da am eich busnes eich hun.
- Rydyn ni'n addo rhannu'r clod gyda chi os byddwn ni'n ennill.
- Byddwch chi'n cael amser wrth eich bodd.

Mae cystadleuaeth y Criw Mentrus yn rhan o Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru i helpu pobl ifanc 5-25 oed i archwilio syniadau am fusnes.

Am ragor o wybodaeth, neu i ddysgu am fynd yn Fodel Rôl Syniadau Mawr Cymru, ewch i wefan Syniadau Mawr Cymru. **www.YCriwMentrus.com**

Syniadau Mawr Cymru

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Noddwr Cyswllt NatWest Cymru